# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 25 Medi 2012 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Julian Thompson-Hill, Eryl Williams, Bobby Feeley, Hugh Irving, Huw Jones, Barbara Smith a/ac David Smith

**Sylwedyddion:** Y Cynghorwyr Ray Bartley, William Cowie, Gwyneth Kensler, Dewi Owens a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cwsmeriadia (HW), Moderneiddio a Lles (SE); Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM); Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (LR); Rheolwr Adran: Cludiant Teithwyr (PD), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ).

## CROESO

Croesawodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans bawb i'r cyfarfod ac fe estynnodd groeso arbennig o gynnes i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Rebecca Maxwell a oedd newydd ei phenodi, i'w chyfarfod Cabinet cyntaf.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol neu niweidiol.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Fedi 4, 2012.

**Materion yn Codi –**

Tudalen 6 - Eitem Rhif 3: Materion Brys - Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Eryl Williams, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai'n ysgrifennu at aelodau'r Cyngor blaenorol i gydnabod y gwaith yr oedden nhw wedi ei wneud a'u cyfraniad i welliant parhaus a chyflawniad yr awdurdod fel cyngor sy'n perfformio'n dda.

Tudalen 7/8 - Eitem Rhif 5: Adroddiad Diweddaru Ariannol - rhoddodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill ddiweddariad i aelodau ar y safle diweddaraf ynglŷn â dymchwel yr Honey Club yn y Rhyl. Dywedodd fod llythyr gan Lywodraeth Cymru (mewn ymateb i atgoffâd gan y Prif Weithredwr) wedi ei gylchlythyru i gynghorwyr yn dweud fod penderfyniad ar y cais i ddymchwel i'w ddisgwyl o fewn pythefnos. Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod wedi codi'r mater mewn cyfarfod diweddar efo'r Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth a chytunai'r Cabinet ag awgrym yr Arweinydd i e-bostio'r Gweinidog â manylion pellach.

Tudalen 12 - Eitem Rhif 9: Newidiadau i'r Rhaglen Cefnogi Pobl - adroddodd y Cynghorydd Bobby Feeley ar gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a fyddai'n parhau i gyfarfod yn fisol yn y chwe mis nesaf. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Moderneiddio a Lles y byddai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau'n craffu effaith trefniadau newydd cefnogi pobl ar gyflenwad a chyllid y gwasanaethau hynny yn Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fedi 4, 2012 yn gofnod cywir a'u harwyddo gan yr Arweinydd.*

## 5 GWASANAETHAU BWS A GOSTYNGIADAU

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad yn hysbysu'r Cabinet o oblygiadau gostyngiadau yng nghyllid Llywodraeth Cymru, yr ymgynghoriad dilynol ar leihad yn y gwasanaethau bws a thoriadau arfaethedig yn y gwasanaethau bws yn 2012/13 a 2013/14.

Dywedwyd wrth Aelodau am y cefndir i'r cynigion presennol a oedd yn codi o doriadau mewn cyllid grant a delir tuag at wasanaethau bws lleol ynghyd ag effaith potensial adolygiad gweinidogol ar y ffordd y byddai grantiau yn y dyfodol yn cael eu rheoli. Fe gychwynnodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau broses ymgynghori â theithwyr a chymunedau ar gyfres o doriadau posibl a gafodd eu hadolygu wedyn gan Weithgor Gostyngiadau yn y Gwasanaeth Bws (Atodiad 1 i'r adroddiad). Roedd cynigion y Gweithgor ar gyfer 2012/13 wedi eu nodi yn yr adroddiad ynghyd â chynigion ar gyfer 2013/14 (Atodiad 2 i'r adroddiad). Roedd asesiad o effaith ar gydraddoldeb o ran y gostyngiadau potensial wedi ei gynnwys hefyd (Atodiad 3 i'r adroddiad). Roedd y Cynghorydd Smith yn awyddus i amlygu'r gwaith caled a'r ymdrech a wnaethpwyd i gyrraedd yr argymhellion a gynhwysir o fewn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Jones at nifer o lwybrau a cheisiodd eglurder ar gynigion potensial yn y dyfodol ar gyfer yr ardaloedd hynny gan fod angen sicrhau na fyddai amserlennu gwasanaethau'n gorffen yn rhy fuan ac y byddai cymaint o bobl ag sydd bosib yn cael eu cynnwys os byddai newidiadau'n ofynnol. Fe sicrhaodd Rheolwr Adran: Cludiant Teithwyr (RhA:CT) y Cabinet fod nifer o newidiadau i'r amserlen wedi eu hystyried er mwyn cyflawni'r ateb gorau posib gan ystyried yr angen am arbedion. O ran y gwasanaethau penodol y cyfeiriwyd atyn nhw gan y Cynghorydd Jones, dywedodd y RhA:CT) -

- Gwasanaeth X5 (Corwen - Rhuthun/Dinbych) - roedd sawl ymateb i ymgynghoriad yn cael eu hystyried.  Nid oedd y gwasanaeth yn perfformio'n dda ac roedd 1640 a 1740 yn cael eu harchwilio. Roedd y 1640 yn brysurach ond 1740 oedd y bws olaf felly canlyniad posib fyddai newid amser y gwasanaeth i 1710 i allu cymryd cymaint o deithwyr ag sydd bosib.

- Roedd addasiadau a gynigir i wasanaethau 70/77 (Betws/Clawdd/Cyffylliog/Llanelidan i Ruthun) wedi eu nodi yn Atodiad 4 i'r adroddiad.  Roedd addasiadau a gynigiwyd wedi eu gwneud hefyd i wasanaethau 91/95 (Betws/Carrog i Langollen neu Wrecsam) a byddai hynny'n golygu rhai arbedion gweddol fach ond roedd angen ymgynghoriad ar y cynigion gydag aelodau lleol cyn cylchredeg yn ehangach.

Ceisiodd Aelodau eglurhad ar yr argymhelliad arfaethedig a oedd yn ymwneud â chludiant cleifion i Ysbyty Abergele.  Esboniodd y RhA:CT fod trafodaethau'n gyfredol â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i ariannu peilot i allu delio â cheisiadau teithwyr i fynd i'r clinig llygaid sydd wedi ei drosglwyddo (o Lanelwy i Abergele).  Ond, pe byddai'r peilot yn aflwyddiannus cynigiwyd bod y Cyngor yn cyflwyno rhywfaint o ddarpariaeth cludiant sylfaenol ar gyfer cleifion. Teimlai'r Cynghorydd Bobby Feeley y dylai BIPBC gymryd cyfrifoldeb am gludiant oherwydd y newidiadau i wasanaethau cleifion yr oedden nhw wedi eu cyflwyno. Cytunai'r Cynghorydd Eryl Williams gan ychwanegu fod y Cyngor â'i gyfrifoldebau ei hun o ran darpariaeth cludiant a phe byddai'r Cyngor yn cymryd y cyfrifoldeb ychwanegol byddai hynny ar draul gwasanaethau pwysig eraill.  Cafwyd trafodaeth faith ar hyn gan bwysleisio fod cludiant yn broblem sylweddol i BIPBC ei ystyried o ran newidiadau i leoliad gwasanaethau cleifion a oedd yn anochel dan y cynigion a oedd yn codi o Adolygiadau Gwasanaeth y GIG.  Roedd angen ceisio sicrwydd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw.  Fe atgoffaodd y Cynghorydd Smith yr aelodau ei fod wedi amlygu'r angen i BIPBC lunio Strategaeth Gludiant i ddelio â'r patrwm gwasanaethau newydd a gynigiwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Sir.  Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Moderneiddio a Lles y byddai mater cludiant yn cael ei gynnwys o fewn ymateb ffurfiol y Cyngor i Adolygiadau Gwasanaeth BIPBC.  Holodd y Cynghorydd Barbara Smith ynglŷn â nifer y cleifion a oedd yn cael eu heffeithio gan drosglwyddiad y clinig llygaid i Ysbyty Abergele ac fe esboniodd y RhA:CT nad oedd yna unrhyw ddata penodedig o ran defnydd cludiant teithwyr ond roedd cyfradd yr apwyntiadau nad oedden nhw'n cael eu cadw'n hysbys ac roedd yn ymwybodol fod hyn yn broblem i nifer o gleifion.  Tra bod rhai cleifion yn gallu defnyddio cludiant gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Galw'r Gyrrwr, doedd y gwasanaethau hynny ddim ar gael yn gyffredinol i'r cyhoedd.

Roedd yr Arweinydd yn falch o nodi'r ymgynghoriad cyhoeddus arwyddocaol ar y cynigion a mewnbwn y Grŵp Cludiant Gwledig o fewn y broses a chymeradwyodd waith caled y rheiny a oedd yn ymglymedig. Fodd bynnag, fe fynegodd bryderon ynglŷn â chanfyddiadau'r adolygiad gweinidogol a'r effaith ar awdurdodau lleol a TAITH (Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol).  Dywedodd y Cynghorydd Smith ei fod wedi gofyn i Brif Weithredwr TAITH, Mr Iwan Prys Jones, roi cyflwyniad i'r Cyngor Sir unwaith y byddai canlyniad yr adolygiad gweinidogol yn hysbys.

***PENDERFYNWYD*** –

(a) *bod y gostyngiadau ar gyfer 2012/13 fel y'u cynigiwyd ym mharagraff 4.6 i'r adroddiad i'w gwneud gyn gynted ag sydd bosib;*

(b) *gwneud y gostyngiadau a nodir ym mharagraff 4.7 i'r adroddiad ac Atodiad 2 i'r adroddiad ar neu o ddydd Llun, Ebrill 1, 2013 yn amodol ar adolygiad gweinidogol ac unrhyw drefniadau newydd gyda gweinyddu grantiau ar gyfer gwasanaethau bws yn 2013/14;*

(c) *bod sylwadau i'w rhoi i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ariannu gwasanaeth car cymunedol er mwyn cludo cleifion i'r clinig llygaid yn Abergele os byddai cyllid peilot Ysbyty Abergele'n aflwyddiannus,*

(d) *pe byddai yna leihad mantoli ymylol, y dylid dirprwyo hyn i'r Pennaeth Priffyrdd a Seilwaith ar y Cyd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd.*

## 6 CONTRACT CARTREF PLANT BRYN Y WAL

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad gan geisio cytundeb y Cabinet i gynigon o ran trefniadau contractiol sy'n ymwneud â Chartref Preswyl pedwar/pum gwely yn Rhuddlan ar ôl Ebrill 2013 a'r defnydd gwahanol o adnoddau.

Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar drefniant contractiol gyda Gweithredu dros Blant a oedd yn berchen ar Gartref Plant Bryn y Wal ac yn ei redeg. Oherwydd galw cyfyngedig nid oedd y Cyngor wedi defnyddio'r cyfleuster yn llawn. Felly cafwyd trafodaethau cyfredol i sicrhau a ellid rhannu adnoddau a chostau â dau neu dri o awdurdodau lleol eraill. Os nad oedd hynny'n bosib fe ganiateid i'r contract ddarfod ar ddiwedd Mawrth 2013. Byddai'r ddau opsiwn yn cyflawni arbediad cyllideb a byddai'n galluogi ail-fuddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth. Roedd costau manwl y cynigion wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Roedd y cynigion yn canolbwyntio ar y canlynol -

- cadw gyfran o gyllideb bresennol Bryn y Wal (£215k) i brynu cyfran yn yr adnodd preswyl diwygiedig pe byddid yn cytuno ar hynny, neu, fel arall, i wneud trefniadau lleoli gwahanol; byddai hefyd yn ariannu'r costau ychwanegol o ddarparu trefniadau gofal maeth brys, a

- fe ddefnyddid y gweddill wedyn i hyrwyddo dau ddatblygiad (1) Gofal Maeth â Chymorth, a (2) cryfhau Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd, y ddau yma wedi eu targedu tuag at leihau'r nifer sydd angen eu lletya neu leihau'r angen i ddefnyddio gofal preswyl.

Yn ystod ystyriaeth o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer trefniadau yn y dyfodol ychwanegodd y Cynghorydd Feeley na chafwyd unrhyw ymateb gan awdurdodau cymdogol hyd yma o ran rhannu cyfleusterau. Fe ymhelaethodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (P:GP&Th) ar y buddsoddiad mewn darpariaeth sy'n seiliedig ar faethu i ddelio ag ystod o wahanol anghenion. Gan fod Bryn y Wal yn darparu math arbennig o ddarpariaeth ni fyddai'n ymarferol cynnal y contract

dan drefniadau presennol. Fe drafododd y Cabinet yr ailfuddsoddiad mewn meysydd blaenoriaeth â'r swyddogion a nodwyd mai dim ond nifer bychan o blant oedd yn cyrchu gofal preswyl yn Sir Ddinbych ac roedd yna fwy o angen am ddarpariaeth arbenigol nad oedd i'w gael ym Mryn y Wal. Byddai trefniadau prynu yn ôl y galw ar gyfer plant penodol ar amseroedd penodol yn parhau a byddai rhai plant yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir er mwyn cyfarfod â'u hanghenion unigol. Cyfeiriwyd hefyd at y risgiau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau a'r mesurau i'w lleihau. Fe adroddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Moderneiddio a Lles ar beth o'r gwaith rhanbarthol a oedd yn cael ei wneud i asesu amrediad y ddarpariaeth breswyl a'r cyfleusterau yng Ngogledd Cymru er mwyn cyfarfod ag anghenion plant.

Teimlai'r Cynghorydd Dewi Owens y dylid cadw'r adnodd a rennir fel cyfleuster dim ond os byddai'n cael ei ddefnyddio'n llawn a holodd am ddefnydd gan awdurdodau cymdogol. Adroddodd y P:GP&Th fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi defnyddio gwely'n gyson ar gyfer dau o blant fel pryniant yn ôl y galw heb ymwneud â'r contract.

Cytunai'r Cabinet na fyddai'n briodol parhau i ariannu'n gyfan gwbl adnodd nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n llawn. Ond, roedd aelodau o blaid dull cydweithredol ag awdurdodau cymdogol er mwyn cynnal y cyfleuster o fewn y sir a gobeithient y byddai ymdrechion i'r perwyl hwnnw'n llwyddiannus.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cadarnhau –*

*(a) y trefniadau contractiol arfaethedig ar ôl Ebrill 2013 fel y'u nodir o fewn yr adroddiad;*

*(b) datblygiad gwasanaeth cymorth i deuluoedd oriau effro saith diwrnod fel y'i nodir yn yr adroddiad*

*(c) datblygiad gofal maeth â chymorth fel y'i nodir yn yr adroddiad.*

## 7 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLAETH GYLLIDOL 2011/12

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor a throsolwg o'r cefndir economaidd am y flwyddyn. Roedd yn adrodd hefyd ar oblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion y trysorlys a chadarnhaodd gydymffurfiad â chyfyngiadau'r trysorlys a Dangosyddion Darbodus.

Wrth grynhoi'r adroddiad esboniodd y Cynghorydd Thompson-Hill fod hon yn ddogfen hanesyddol ac amlygodd y prif bwyntiau o ran gweithgareddau benthyca a buddsoddi yn ystod 2011/12 ac fe ymhelaethodd hefyd ar nifer o ddangosyddion darbodus allweddol. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau (P:C&A) fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi trafod yr adroddiad yn helaeth; roedd adolygiad Archwilio Mewnol diweddar wedi rhoi cyfraddiad sicrwydd uchel ar weithgareddau rheolaeth y trysorlys; ac roedd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn fodlon â'r gwasanaeth. Felly gallai'r asesiadau hynny roi sicrwydd pellach i'r Cabinet.

Manteisiodd Aelodau ar y cyfle i ofyn cwestiynau a thrafod nifer o faterion a oedd yn codi o'r adroddiad â'r Aelod Arweiniol a'r P:C&A a'r ymateb oedd –

- roedd cyfyngiadau benthyca'r Cyngor yn cael eu gosod yn flynyddol gan y Cyngor Llawn
- fe ymhelaethwyd ar y defnydd o Fenthyca Mewnol lle defnyddid cronfeydd wrth gefn a gweddillion y cyngor ei hun i ariannu gwariant cyfalaf fel dull mwy cost effeithiol o fenthyca yng ngoleuni incwm buddsoddi isel
- rhoddwyd enghraifft o gyfraddau benthyca nodweddiadol a'r symiau a oedd yn daladwy dros dymor o ddeng mlynedd gyda data hanesyddol i adlewyrchu'r ffordd yr oedd cyfraddau llog wedi cwympo i'r iselfannau presennol o hyd at 10% yn y 1980au/1990au
- adroddwyd ar ddyled etifeddol y Cyngor gan awdurdodau blaenorol ynghyd â'r proffil aeddfedrwydd dyled ac yn arbennig dyled sy'n aeddfedu yn ystod bywyd y Cyngor presennol sy'n rhyddhau cynilion o oddeutu £700k
- cadarnhawyd fod y Cyngor Llawn wedi cytuno i eithriad am resymau gweithredol i ganiatáu defnydd parhaus o fanc y Cyngor ei hun, Natwest, er ei fod yn un o'r banciau a effeithiwyd gan israddiad credyd-raddio yn hydref 2011.

Pan fyddai pwyllgorau eraill wedi ystyried eitemau busnes cyn y Cabinet, teimlai'r Cynghorydd Eryl Williams y byddai'n ddefnyddiol i'r Cabinet gael ei ddarparu â pheth adborth ar hynny. Cadarnhaodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler, Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol mai dim ond yn ddiweddar yr oedden nhw wedi ystyried materion rheoli'r trysorlys ac nid oedd y cofnodion ar gael eto. Fodd bynnag, roedd croeso i aelodau'r Cabinet ddod i'r cyfarfodydd pan fyddid yn trafod materion felly. Nododd y Cabinet fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi bod yn hapus â chynnwys yr adroddiad a pherfformiad rheolaeth y trysorlys.

O ystyried yr hinsawdd economaidd presennol teimlai'r Cynghorydd Bobby Feeley y gallai'r Cyngor fanteisio ar y cyfraddau llog isel sy'n daladwy am fenthyg i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf a byddai hynny'n fanteisiol hefyd i'r economi leol a chymunedau. Oherwydd yr incwm buddsoddi isel teimlai'r Cynghorydd David Smith y byddai yna rinwedd mewn defnyddio arian dros ben i wella capasiti adeiladu yn hytrach nac i ddibenion buddsoddi. Esboniodd y P:C&A fod safbwyntiau tebyg wedi eu mynegi gan gynghorwyr yn ystod trafodaethau yn y sesiwn ddiweddar ar ariannu'r Cynllun Corfforaethol pan gytunwyd ar raglen fuddsoddi sylweddol. Y ffactor gyfyngol oedd cost ad-dalu'r ddyled o'r gyllideb refeniw. Roedd gwaith yn gyfredol hefyd i archwilio a ellid defnyddio gweddillion yn fwy effeithiol a byddid yn gwneud asesiadau risg gydag adroddiad yn ôl i'r Cyngor ar y canfyddiadau. Yn unol â hynny -

***PENDERFYNWYD*** *nodi Adroddiad Blynyddol Rheolaeth y Trysorlys ar gyfer 2011/12.*

## 8 BLAEN RAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Flaenraglen Waith y Cabinet i'w ystyried. Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar nifer o ddiwygiadau fel a ganlyn –

- byddai adroddiadau ar yr adolygiad o Ddarpariaeth Addysg Ffydd ac Ysgolion Rhuthun yn cael eu gohirio o fis Hydref i fis Tachwedd
- byddai adroddiad ar Gŵn yn Baeddu'n cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Tachwedd
- y posibilrwydd o ohirio'r adroddiad ar y Marine Lake, y Rhyl o fis Hydref i fis Tachwedd.

Dywedodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y dylid trefnu adroddiad ar argymhellion y gyllideb ar gyfer mis Ionawr. Cododd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cwsmeriaid y posibilrwydd hefyd o gyflwyno adroddiad ar Arian Cymunedol i gyfarfod nesaf y Cabinet ym mis Hydref.

***PENDERFYNWYD** nodi Blaenraglen Waith y Cabinet, yn amodol ar y diwygiadau a'r sylwadau uchod*.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05 a.m.